Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru:

## Diwygiadau i reoliadau cymorth i fyfyrwyr a diogelu ffioedd i'r rhai sy'n ymgymryd â chyrsiau addysg uwch ym mlwyddyn academaidd 2025/2026

## SFWIN 05/2025

Mehefin 2025

Mae'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn disgrifio'r diwygiadau a gynhwysir mewn rheoliadau cymorth i fyfyrwyr a rheoliadau cysylltiedig ar gyfer blwyddyn academaidd 2025 i 2026.

Bydd Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2025 ('Rheoliadau 2025') yn diwygio'r rheoliadau sy'n darparu ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr a diogelu ffioedd dysgu (er mwyn i statws ffioedd cartref a ffioedd dysgu wedi'u capio fod yn gymwys) ar gyfer myfyrwyr cymwys sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n dilyn cwrs addysg uwch dynodedig mewn blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025.

Gallai'r trefniadau a ddisgrifir yn yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn newid, ac yn unol â Rheoliadau 2025. Nid yw'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn cwmpasu pob agwedd ar bolisi ac nid yw'n gyfystyr â chyngor cyfreithiol na datganiad diffiniol o'r gyfraith. Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod yr wybodaeth a gynhwysir yn gywir adeg ei chyhoeddi, ni ddylid dibynnu ar y canllawiau hyn fel crynodeb cyflawn a chywir o'r Rheoliadau, sydd eto i'w gwneud. Os bydd anghysondeb rhwng y canllawiau hyn a'r Rheoliadau, y Rheoliadau fydd drechaf.

Disgwylir i Reoliadau 2025 ddod i rym ym mis Gorffennaf 2025.

## Statws caniatâd cyfredol myfyrwyr cymwys a darpariaethau terfynu ôl-raddedig

Mewn deddfwriaeth cymorth myfyrwyr a diogelu ffioedd sy'n bodoli ar hyn o bryd, mae'r geiriad presennol ar gyfer y diffiniadau o 'gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir' a 'person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir' yn ei gwneud yn ofynnol bod y caniatâd perthnasol wedi ei "roi" i berson i ddod i mewn, yn hytrach na bod rhaid "cael" y caniatâd hwnnw nawr. Bydd unrhyw un y rhoddwyd caniatâd iddynt, ar ba bynnag adeg, felly yn parhau i fodloni'r amod fel myfyriwr cymwys hyd yn oed os nad oes ganddynt ganiatâd o hyd. Mae hynny'n cyferbynnu â diffiniadau categorïau cymhwystra eraill sy'n ymwneud â chaniatâd a ddiogelir mewn mannau eraill yn y rheoliadau, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod rhaid "cael" y caniatâd perthnasol.

Mae hyn yn golygu, o dan y gwaith drafftio presennol, y bydd person yn dod o fewn y categorïau cymhwystra 'gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir' neu 'person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir a'u plant' fel myfyriwr newydd hyd yn oed os yw eu caniatâd perthnasol wedi dod i ben.

Hefyd, mae'r darpariaethau terfynu yn Rheoliadau Addysg (Benthyciadau Gradd Doethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019, fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o

bryd, yn golygu na ellir gwneud unrhyw berson sy'n dod o fewn y categori cymhwystra ' 'gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir' yn anghymwys i gael cymorth.

Dim ond y rhai sydd â chaniatâd i aros ar hyn o bryd ac sy'n perthyn i'r categori cymhwystra perthnasol a gynhwysir yn y rheoliadau cymorth myfyrwyr a diogelu ffioedd ddylai fod yn gymwys i gael cymorth myfyrwyr a/neu fesurau diogelu ffioedd (ar yr amod bod yr holl feini prawf perthnasol eraill yn cael eu bodloni). Dyma'r polisi sy'n bod ar hyn o bryd.

Bydd Rheoliadau 2025 yn gwneud newidiadau technegol i sicrhau bod gofynion cymhwystra ar gyfer 'dinasyddion Wcráin gwarchodedig' a 'phersonau y rhoddwyd caniatâd iddynt ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir a'u plant' yn cyd-fynd â'r polisi arfaethedig; ac y gall darpariaethau terfynu weithredu'n gywir.

Bydd y diwygiadau yn berthnasol i flwyddyn academaidd cwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2025, a byddant yn berthnasol i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig newydd a phresennol cymwys.

## Ymholiadau

Os oes gennych ymholiadau am geisiadau, sut i wneud cais, taliadau neu unrhyw agwedd arall ar y gwasanaeth, cysylltwch â **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn, **cysylltwch ag Is-adran Strategaeth a Chyllid Llywodraeth Cymru drwy e-bostio**

Gallwch ofyn am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.